

BBC radio

Dewch i Siarad 2 Let's speak Welsh

BBC Publications



A series of twelve programmes. Each programme will be repeated.

The programmes follow on from the Dewch i Siarad/Let's Speak Welsh 1 course. They should also prove suitable for listeners who have followed another Welsh course for one or more years. The main emphasis will be on the spoken language and will use and reinforce the sentence patterns introduced in Dewch i Siarad Book 1.

Attention will be paid to the more difficult parts of the previous year's work and more practice given in their use. It is hoped that the programmes will assist those people who are following the Audio-Visual course produced by the Welsh Language Unit, Treforest, Pontypridd.

This booklet is indispensable to the understanding of the broadcasts. It contains the text of the scenes, the vocabulary and notes on grammar.

Listeners are expected to amplify the lessons by continual revision and expansion of vocabulary.

First broadcast from September to December 1974
on Radio 4 Wales, Medium Wave and VHF.

Cover picture: Snowdonia (Barnaby's Picture Library,
photograph by G. E. A. Fiddes)

Published to accompany a series of programmes
prepared in consultation with the BBC Further
Education Advisory Council.

© The British Broadcasting Corporation 1974
First published 1974
Published by the British Broadcasting Corporation
35 Marylebone High Street, London W1M 4AA
Printed in Wales by Qualitex Printing Limited Cardiff
ISBN: 0 563 10870 3

Dewch i Siarad 2 Let's speak Welsh

Series written and produced by Bernard Evans

Language Editor: J. Idris Evans

BBC Publications

INTRODUCTION

Pronunciation

Welsh is pronounced as it is written, and with few exceptions each letter and combination of letters have only one sound. Some Welsh letters have their equivalents in English. There are others which have corresponding sounds but not always corresponding letters. There are also some sounds which have no exact equivalents, and the English approximations given below are at best a rough guide. There will be constant pronunciation practice during the broadcasts. In order to secure good pronunciation listen carefully, practise daily and forget the English sounds.

Consonants

These are pronounced as in English:

b d h j l m n p sh t w z and *i* (like 'y' in 'yet').

The following have corresponding sounds, but not always corresponding letters, in English:

c like *c* in 'cat' and *k* in 'kettle'

there is no letter *k* in Welsh

dd like *th* in 'breathe'

f like *v* in 'very'

ff, ph like *f* in 'funny'

g like *g* in 'get'

ng like *ng* in 'song'

There are two exceptions. In *Bangor* and *dangos* it is like *ng* in 'finger'

s like *s* in 'song' and *c* in 'dance'

th like *th* in 'thin'

tsh like *ch* in 'child'

The following have no corresponding sounds in English:

r trilled like Scottish *r*.

rh a noiseless *r*, followed by the aspirate; in other words, a strong emission of breath.

ll produced by putting the tongue in the *l* position and at the same time emitting a sharp breath.

ch almost like Scottish *ch* as in 'loch' or German 'Bach'

mh, nh, ngh, like *m, n, ng* but followed by a strong emission of breath.

Vowels

Unlike English, all Welsh vowels are pure. That is, they are never diphthongized.

long *a* as in 'father'

short *a* as in 'fat', as pronounced in most parts of Northern England.

long *e* as in 'gate', as pronounced in Northern England

short *e* as in 'get'

long *i* as *ea* in 'team'

short *i* as in 'rim'

long *o* as in 'note' of Northern England

short *o* as in 'not'

long *w* as in 'foed'

short *w* as in 'good'

u In South Wales long and short *u* is the same as for *i*; in North Wales it is more like the French *u*

y long and short, has two sounds. One is the 'clear' sound, as for *i*, the other is the 'obscure' sound like 'u' in 'further' (long) and 'u' in 'fun' (short)

In North Wales the 'clear' sound is produced more in the back of the throat.

Diphthongs

1 *ai, ae, au* (in accented syllables) almost like 'aye'

oi, oe, ou like 'oy' in 'boy'.

iw, uw, yw (in final syllables). No exact equivalent in English. The nearest English sound is 'eu' in 'Europe', but without the consonantal 'y' sound at the beginning.

aw almost like 'aw' in 'miaow'

ew short *e* sound followed by rounding and closing the lips.

wy lips rounded for vowel *w* sound, then a glide to clear *y* sound.

In all the above diphthongs the first vowel should have its full value and a quick glide made to the second.

2 *ei, eu, ey* almost like 'y' in 'my'.

yw, (in non-final syllables) like 'ow' in 'how'.

ow, mostly like 'ow' in 'rowing', sometimes like 'ow' in 'how'.

Note the following

1 *ac* and *nac* are nearly always *ag* and *nag* in spoken Welsh.

2 *si*, followed by a vowel, is generally like 'sh' in 'short'.

3 *ai, ae, au*, in unaccented syllables like 'e' in 'get'.

4 *ei* ('his', 'her'), *eu* ('their') like 'y' in 'copy'.

ei in the words *ein, eich* has the obscure *y* sound.

5 The 'obscure' *y* is heard in non-final syllables and some words of one syllable, e.g. *dyma, y, yn, yr, fy, syr*.

The 'clear' *y* is heard in final syllables and in most words of one syllable, e.g. *afonydd, tŷ*.

6 Words like *pobl, sobr, siwgr, trwbl, ochr, cwbl*, are pronounced *pobol, sobor, siwgwr, trwbwl, ochor, cwblwl*.

Also words like *yfory, afalau, ysgrifennu* are pronounced *fory, fale, sgrifennu*.

7 In words of more than one syllable the emphasis is nearly always on the last syllable but one.

e.g. *gorffen* emphasis on *o*

gorffennodd emphasis on *e*

gorffenedig emphasis on second *e*

8 Some words of one syllable have two meanings, one pronounced with long *a e w o y* (clear), the other with short *a e w o y* (clear).

A circumflex is used to denote the long vowel,

e.g. *tân, tan; gêm, gem; gŵn, gwn; tôn, ton; hŷn, hyn*.

9 *i* and *w* can be consonants or vowels. When *i* is used as a consonant it is like the consonantal 'y' in 'yet'.

i can be a consonant in the following combinations: *ia, ie, io*

- 6 Rhowch wybod i fi
Rhowch wybod iddyn nhw
- 7 Cymryd
Gymrwch chi?
Gymroch chi?
Fe gymra i baned o de
Fe gymra i ddisgled o de
- 8 Erbyn hyn
Os mynnwch chi
Wedi'r cwbl
Yn ogystal â
Mewn gwirionedd
Wyddoch chi?

*Let me know
Let them know*

*To take
Will you take?
Did you take?
I'll take a cup of tea
(North Wales)
(South Wales)*

*By this time
If you wish
After all
As well as
In truth, actually
Do you know (something)?*

9 GEIRFA:

Cefn(au)	<i>back(s)</i>	Gwres canolog	<i>Central Heating</i>
Cofio	<i>to remember</i>	Lolfa (f)	<i>lounge</i>
Cofiwch	<i>Remember</i>	Lle(oedd)	<i>Place(s)</i>
Cynllun(iau)	<i>Plan(s)</i>	Neu	<i>or</i>
Dewis	<i>To choose, choice</i>	Paratoi	<i>To prepare</i>
Enw(au)	<i>Name(s)</i>	Prynu	<i>to buy</i>
Erw(au) (f)	<i>Acre(s)</i>	Rhosyn(nau)	<i>Rose(s)</i>
Gardd lysiau (f)	<i>Vegetable garden</i>	Tad-yng-nghyfraith	<i>Father-in-law</i>
Gofalu am	<i>To take care of</i>	Tir	<i>land</i>
Gwir	<i>True</i>	Twyn	<i>hillock</i>
Gwirionedd	<i>Truth</i>		

GWERS 2:

Fel y gwyrddoch chi, mae Huw Jones yn gweithio mewn swyddfa. Mae'r swyddfa mewn adeilad uchel yng nghanol y dref. Mae'r adeilad yn perthyn i Gwmni Yswiriant ag mae Huw Jones yn arolygwr gyda'r cwmni hwnnw. Mae e newydd gyrraedd ei swyddfa. Mae Morfudd y sgrifenyddes wedi doddi pentwr o lythyrau ar ei ddesg.

- HUW: Bore da, Morfudd.
MORFUDD: Bore da, Mr Jones.
HUW: Mae'n dwym.
MORFUDD: Ydy, mae hi'n afiach o dwym.
HUW: Gwell i chi agor y ffenest.

- MORFUDD: Ie wir.
HUW: Fuooh chi yn y ddawns neithiwr?
MORFUDD: Do.
HUW: Sut hwyl gawsoch chi?
MORFUDD: Eitha da, ar y cyfan. Doedd y bwyd ddim yn dda, ond roedd y ddawns ei hun yn ardderchog.
HUW: Oedd Dewi yno?
MORFUDD: Wrth gwrs.
HUW: Wrth gwrs! Nawr te, gadewch i ni weld beth sy yn y llythyrau 'ma.
Mae e'n darllen y llythyr cynta:
Gwrandewch ar hwn.

10, Stryd yr Eglwys,
Bryntwi.
6 Ebrill, 1974

Annwyl Syr,

Insiwrans carafan - rhif 50671

Fel y gwyrddoch chi, chwe mis ydy tymor y carafannau yn Llwynyfer, sef o 1 Ebrill i 31 Hydref. Fe es i i'r garafan ddydd Llun diwetha, ag wrth i fi droi'r dŵr ymlaen fe welais i fod y pibau'n gollwng dŵr mewn tri lle. Roedd rhaid i fi wacáu'r sustem ddŵr ar unwaith.

Mae'n amlwg fod y pibau wedi chwyddo yn ystod y tywydd oer yn y gaeaf. Ar hyn o bryd mae'r plwmwr lleol wrthi'n gwella'r pibau dŵr. Pan fydd e wedi gorffen, ga i anfon y bil atoch chi?

Fe fydd yn dda gen i gael gwybod mor fuan ag sy'n bosibl.

Yr eiddoch yn gywir,
Alun Jenkins.

- MORFUDD: Ydych chi'n mynd i ateb y llythyr yna nawr?
HUW: Ydw. Ydych chi'n barod?
MORFUDD: Un funud, mae rhaid i fi gael pensil arall. Dyna ni.
HUW: Annwyl Mr Jenkins,

Insiwrans carafan - rhif 50671

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 6 Ebrill, 1974, yn cyfeirio at y pibau'n gollwng dŵr yn eich carafan yn Llwynyfer.

Yn ôl eich llythyr chi, roeddech chi wedi gwacáu'r sustem ddŵr fis Hydref diwetha. Eto i gyd, roedd y pibau wedi chwyddo a hollti. Mewn gwirionedd, mae hynny'n awgrymu fod dŵr yn y pibau yn ystod y gaeaf.

Mae pibau gwres canolog yn ogystal â phibau dŵr twym yn y garafan. Oeddech chi wedi gwacáu'r holl sustem ddŵr?

Fe fydd yn dda gen i gael eich sylwadau.

Yr eiddoch yn gywir,
Huw Jones, Arolygwr.

Nodiadau:

1 Yng nghanol y dref yng ngwaelod y drôr	<i>In the middle of town In the bottom of the drawer</i>
2 Newydd gyrraedd Newydd weld	<i>Literally, newly arrived, just arrived Just seen</i>
3 Wrth i fi droi'r dŵr ymlaen Wrth iddo fe wrth iddi hi wrth i ni wrth i chi wrth iddyn nhw	<i>As I turned on the water</i>
4 Fe welais i Fe welodd e, hi Fe welon ni Fe weloch chi Fe welon nhw	<i>I saw He, she saw We saw You saw They saw</i>

A revision list of the concise form of the verb.

Present tense:

Eistedd	Mynd	Dod
Fe eistedda i	Fe â i	Fe ddo i
Fe eisteddiff e, hi	Fe aiff e, hi	Fe ddaw e, hi
Fe eisteddwn ni	Fe awn ni	Fe ddown ni
Fe eisteddwch chi	Fe ewch chi	Fe ddewch chi
Fe eisteddan nhw	Fe ân nhw	Fe ddôn nhw
Gwneud	Cael	
Fe wna i	Fe ga i	
Fe wnaiff e, hi	Fe gaiiff e, hi	
Fe wnawn ni	Fe gawn ni	
Fe wnewch chi	Fe gewch chi	
Fe wnân nhw	Fe gân nhw	

Past tense:

Eistedd	Mynd	Dod
Fe eisteddais i	Fe es i	Fe ddes i
Fe eisteddodd e, hi	Fe aeth e, hi	Fe ddaeth e, hi
Fe eisteddon ni	Fe aethon ni	Fe ddaethon ni
Fe eisteddoch chi	Fe aethoch chi	Fe ddaethoch chi
Fe eisteddon nhw	Fe aethon nhw	Fe ddaethon nhw
Gwneud	Cael	
Fe wnes i	Fe ges i	
Fe wnaeth e, hi	Fe gafodd e, hi	
Fe wnaethon ni	Fe gawson ni	
Fe wnaethoch chi	Fe gawsoch chi	
Fe wnaethon nhw	Fe gawson nhw	

Present tense of 'Gwybod'

Fe wn i	Fe fues i
Fe wŷr e, hi	Fe fuodd e, hi
Fe wyddon ni	Fe fuon ni
Fe wyddoch chi	Fe fuoch chi
Fe wyddon nhw	Fe fuon nhw

Past tense of 'Bod'

5 Mae'n amlwg fod y pibau wedi chwyddo	- It's obvious that the pipes have expanded
Mae hynny'n awgrymu fod dŵr yn y pibau	- That suggests that there was water in the pipes

6 Fe fydd yn dda gen i	I shall be glad
------------------------	-----------------

This is the future of 'Mae'n dda gen i'

Roedd yn dda gen i

I was glad

Other idiomatic uses of the prepositions:

i:	Mae rhaid i fi	I must
Ar:	Mae eisiau llyfr arna i	I want a book
	Mae eisiau bwyd arni hi	She is hungry
	Mae syched arnon ni	We are thirsty
	Mae anwyd arnoch chi	You have a cold
	Mae peswch arnyn nhw	They have a cough
	Mae hiraeth arna i	I am homesick
	Mae ofn arno fe	He is afraid
	Mae ofn oŵn arni hi	She is afraid of dogs

7 Gohebu	To correspond
Eitha da	Quite well
Ar y cyfan	On the whole
Y ddawns ei hun	The dance itself
Fel y gwyddoch chi	As you know
Mae'n amlwg	It's obvious
Yn ystod	During
Yn ôl eich llythyr chi	According to your letter

8 GERFA:

Adeilad(au)	Building(s)	Gwacáu	To empty
Afiach	Unhealthy	Lleol	Local
Agor	To open	Oer	Cold
Amlwg	Obvious	Pentwr	Heap
Anfon	To send	Perthyn	To belong; to be related
Ar unwaith	At once	Pibau	Pipes
Ardderchog	Excellent, splendid	Neithiwr	Last night
Arolygwr	Inspector	Sgrifenyddes (f)	Secretary
Arolygwyr	Inspectors	Swyddfa (f)	Office
Cwmni(oedd)	Company(ies)	Swyddfeydd	Offices
Cyfan	All, total	Sylwadau	Remarks
Cyfeirio	Refer	Twym	Hot
Cyrraedd	To arrive	Tywydd	Weather
Chwyddo	To swell; Expand	Uchel	High
Diwetha	Last	Yswiriant	Insurance
Gollwng	To release, to leak		

GWERS 3:

Mae hi'n fore dydd Llun a dydy pethau ddim yn rhy dda yn y byngalo. Dydy Alun ddim wedi codi. Mae e'n eitha sâl yn y gwely. Ond mae Gwen yn gofalu amdano fe. Mae hi'n dod â chwpanaid o de iddo fe.

- GWEN: Sut rydych chi erbyn hyn, Alun?
ALUN: Tipyn bach yn well, rydw i'n meddwl.
GWEN: Beth am ddarn bach o fara meny, neu dost neu ...
ALUN: Na. O . . . O . . . O . . .
GWEN: Dydych chi ddim yn well. Mae rhaid i fi alw'r doctor.
ALUN: Ond Gwen. Beth am yr ysgol?
GWEN: Dydyn nhw ddim yn mynd i 'ngweld i yn yr ysgol. Rydw i'n aros yma i weld y doctor.

Mae'r doctor yn cyrraedd:

- GWEN: Bore da, doctor.
DOCTOR: Bore da, Mrs Davies. Tywydd ofnadwy.
GWEN: Ie wir - ag amser prysur iawn i chi.
DOCTOR: Mae hanner y bobl yn y dref yn sâl, rydw i'n siwr. Nawr te, ble mae'r claf?
GWEN: I fyfyr'r ffordd yma, os gwelwch chi'n dda. Does dim golwg rhy dda ar Alun. Mae arna i ofn ei fod e'n sâl iawn. Dyma ni.
Mae hi'n agor drws stafell wely Alun:
Y doctor wedi dod i'ch gweld chi, Alun.
ALUN: O diolch.
DOCTOR: Nawr te, Mr Davies. Dewch i fi gael gweld. Dangoswch eich tafod. Hm! Beth am eich gwres chi? Agorwch eich ceg. Dyna ni. Fe adawn ni'r thermometr yno am ychydig. Oes poen arnoch chi?
ALUN: A . . . a . . . a . . .
GWEN: Roedd e'n dweud fod poen drosto i gyd, y bore 'ma.
DOCTOR: Diolch. Pen tost?
ALUN: A . . . a . . . a . . .
DOCTOR: Dewch i ni gael gweld beth ydy tymheredd y brawd. Hm!
ALUN: Mae'r poen drwy 'nghorff i i gyd . . . i lawr y breichiau a thrwy'r coesau.
GWEN: Ydy e'n sâl iawn doctor?
DOCTOR: Wel . . .
GWEN: Fydd rhaid iddo fe fynd i'r ysbyty?
DOCTOR: Dydw i ddim yn meddwl. Fe fydd e'n iawn ymhen ychydig ddyddiau. Rhaid i chi ei gadw e yn y gwely. Ewch i nôl y moddion yma iddo fe. Llond llwy de dair gwaith y dydd ag un bilsen nos a bore ag fe fydd e'n iawn.
ALUN: Ond beth sy'n bod arna i, doctor?
GWEN: Ie, beth sy'n bod arno fe?
DOCTOR: Roeddwn i'n meddwl 'mod i wedi dweud wrthoch chi.
GWEN: Naddo, ddwyedoch chi ddim.
DOCTOR: Agorwch eich pyjamas Mr Davies. Welwch chi'r smotiau 'na?
ALUN: Mae 'na smotiau mawr coch drosto i gyd.
GWEN: Ag mae chi'n newydd yn dod allan bob eiliad.
DOCTOR: Y frestâ gech, Mrs Davies. Cadwch e yn y gwely. Fe fydda i'n galw eto.

Nodiadau:

- 1 Mae Gwen yno yn gofalu amdano fe
- | | |
|--------------------------------------|---|
| Gofalu am | <i>Gwen is there to look after him</i> |
| Gofalu amdana i | <i>to look after</i> |
| Gofalu amdano fe | <i>to look after me</i> |
| Gofalu amdani hi | <i>to look after him</i> |
| Gofalu amdanon ni | <i>to look after her</i> |
| Gofalu amdanoch chi | <i>to look after us</i> |
| Gofalu amdanyn nhw | <i>to look after you</i> |
| Mae'r doctor wedi dod i'ch gweld chi | <i>to look after them</i> |
| | <i>The doctor has called to see you</i> |

When a vowel comes before the possessive it changes as follows:

- | | |
|-----------------|------------------------------|
| Dod o'm tŷ i | <i>come from my house</i> |
| Dod o'i dŷ e | <i>come from his house</i> |
| Dod o'i thŷ hi | <i>come from her house</i> |
| Dod o'n tŷ ni | <i>come from our house</i> |
| Dod o'ch tŷ chi | <i>come from your house</i> |
| Dod o'u tŷ nhw | <i>come from their house</i> |
| I'm gweld i | <i>to see me</i> |
| I'w weld e | <i>to see him</i> |
| I'w gweld hi | <i>to see her</i> |
| I'n gweld ni | <i>to see us</i> |
| I'ch gweld chi | <i>to see you</i> |
| I'w gweld nhw | <i>to see them</i> |

- 2 Fe ga i godi
- | | |
|------------------------|------------------------------|
| Cha i ddim codi | <i>I may get up</i> |
| Ga i wneud rhywbeth? | <i>I may not get up</i> |
| Cewch | <i>May I do something?</i> |
| Na chewch | <i>Yes</i> |
| Fe ddwyedoch chi | <i>No</i> |
| Ddwyedoch chi ddim | <i>You said</i> |
| Ddwyedoch chi rywbeth? | <i>You didn't say</i> |
| Do | <i>Did you say anything?</i> |
| Naddo | <i>Yes</i> |
| | <i>No</i> |

- 3 Beth sy'n bod arno fe?
- | | |
|---------------------------|------------------------------------|
| Beth sy'n bod arnoch chi? | <i>What's the matter with him?</i> |
| | <i>What's the matter with you?</i> |

- 4 Note the following:
- | | |
|-------------------------|---|
| Roedd e'n dweud | <i>He was saying</i> |
| Roedd poen drosto i gyd | <i>He was aching all over</i> |
| | <i>(Literally: there was pain all over him)</i> |

When we want to report what he was saying, we join the two sentences, e.g.
Roedd e'n dweud fod poen drosto i gyd *He was saying that he was aching all over*

- Similarly:
- | | |
|----------------|-------------------|
| Mae arna i ofn | <i>I'm afraid</i> |
|----------------|-------------------|

Mae e'n sâl	<i>He's ill</i>
Mae arna i ofn ei fod e'n sâl	<i>I'm afraid that he's ill</i>
Mae arna i ofn	<i>I'm afraid</i>
Mae hi wedi mynd	<i>She has gone</i>
Mae arna i ofn ei bod hi wedi mynd	<i>I'm afraid that she's gone</i>

When we want to use this form of the sentence then we must introduce the second part with:—

fy mod i	<i>that I am/was</i>
ei fod e	<i>that he is/was</i>
ei bod hi	<i>that she is/was</i>
ein bod ni	<i>that we are/were</i>
eich bod chi	<i>that you are/were</i>
eu bod nhw	<i>that they are/were</i>
bod y dyn	<i>that the man is/was</i>
bod y plant	<i>that the children are/were</i>

5 Parts of the body:

Pen(nau) (m)	<i>head(s)</i>	Migwrn (m)	<i>ankle</i>
Gwallt (m)	<i>hair</i>	Migyrrnau (m)	<i>ankles</i>
Wyneb(au) (m)	<i>face(s)</i>	Boch(au) (f)	<i>cheek(s)</i>
Llygad (m)	<i>eye</i>	Gwefus(au) (f)	<i>lip(s)</i>
Llygaid (m)	<i>eyes</i>	Ysgwydd(au) (f)	<i>shoulder(s)</i>
Gwddf (m)	<i>neck</i>	Gên(au) (f)	<i>jaw(s)</i>
Gyddfau (m)	<i>necks</i>	Ceg(au) (f)	<i>mouth(s)</i>
Trwyn(au) (m)	<i>nose(s)</i>	Braich (f)	<i>arm</i>
Talcen (m)	<i>forehead</i>	Breichiau (f)	<i>arms</i>
Tafod(au) (m)	<i>tongue(s)</i>	Llaw (f)	<i>hand</i>
Croen (m)	<i>skin</i>	Dwylo (f)	<i>hands</i>
Crwyn (m)	<i>skins</i>	Coes(au) (f)	<i>leg(s)</i>
Cefn(au) (m)	<i>back(s)</i>	Clun(iau) (f)	<i>thigh(s)</i>
Corff (m)	<i>body</i>	Pen-lin (f)	<i>knee</i>
Cyrff (m)	<i>bodies</i>	Penliniau (f)	<i>knees</i>
Bys(edd) (m)	<i>finger(s)</i>	Troed (f)	<i>foot</i>
Arddwrn (m)	<i>wrist</i>	Traed (f)	<i>feet</i>
Arddyrrnau (m)	<i>wrists</i>	Sawdl (f)	<i>heel</i>
		Sodlau (f)	<i>heels</i>

6 Tair gwaith y dydd. *Three times a day.*
 Unwaith – *once*; dwywaith – *twice*; tair gwaith – *three times*
 Pedair gwaith – *four times*; pum gwaith – *five times*;
 Chwe gwaith – *six times*.

7 Yn eitha sâl *quite ill* Ymhén ychydig ddyddiau *in a few days*
 Yn well *better* Drosto i gyd *All over him*
 I fyfyr'r ffordd yma. *By this way* Llond llwy de *A teaspoon full*
 Fe adawna ni *He will leave* Nos a bore *Night and morning*

8 GEIRFA:

Braich (f)	<i>Arm</i>	Meddwl	<i>to think</i>
Breichiau	<i>Arms</i>	Moddion	<i>Medicine</i>
Claf	<i>Patient</i>	Ofnadwy	<i>Terrible</i>
Cleifion	<i>Patients</i>	Pilsen (f)	<i>A pill</i>
Coes(au) (f)	<i>Leg(s)</i>	Poen(au)	<i>Pain(s)</i>
Corff	<i>Body</i>	Prysur	<i>Busy</i>
Cyrff	<i>Bodies</i>	Sâl	<i>Ill</i>
Darn(au)	<i>Piece(s)</i>	Smotyn	<i>Spot</i>
Eiliad(au)	<i>Second(s)</i>	Smotiau	<i>Spots</i>
Ffordd (f)	<i>Way</i>	Tafod(au)	<i>Tongue(s)</i>
Ffyrdd (f)	<i>Ways</i>	Tipyn bach	<i>A little bit</i>
Gwres	<i>Temperature, heat</i>	Tymheredd	<i>Temperature</i>
Gwaetha	<i>Worst</i>	Thermomedr	<i>thermometer</i>
Llwy(au) (f)	<i>Spoon</i>	Wyneb	<i>Face</i>
Llwy de	<i>Teaspoon</i>	Y frech goch	<i>Measles</i>

GWERS 4:

Mae Alun a Gwen yn y byngalo:

GWEN: Faint o'r gloch ydy hi Alun?
 ALUN: Hanner awr wedi dau.
 GWEN: Roedd mam a nhad i fod yma erbyn chwarter wedi dau.
 ALUN: Eich mam yn dod yma heddiw! A gêm rygbi ar y teledu!
Mae cloch y drws yn canu:
 GWEN: Dyma nhw nawr.
 ALUN: Ond fe fydd eich mam yn siarad drwy'r amser.
 GWEN: Peidiwch â phryderu. Fydd mam ddim yma. Mae'r ddwy ohonon ni'n mynd i'r farchnad yn Nhre-gaer.
Pum munud yn ddiweddarach:
 MAIR: Wel Gwen, ydych chi'n barod?
 GWEN: Bron â bod.
 MAIR: Diolch byth. Dydw i ddim eisiau eistedd yma drwy'r prynhawn yn edrych ar set deledu.
 HUW: A siarad drwy'r amser. Dewch, Gwen fach – mae'ch mam yn aros.
 GWEN: Oes arian gennyh chi, Alun?
 ALUN: Faint sy eisiau arnoch chi?
 GWEN: Fe wna pum punt y tro.
 ALUN: Dyma chi. Nawr te – i flwrdd â chi.
 MAIR: Da bo chi.
 ALUN: Da boch chi. Dewch, Huw bach, mae'r gêm ar ddechrau.

Yn y farchnad:

- DYN Y STONDIN: Dyma i chi'r llestri gorau . . . y llestri gorau yn y wlad. Faint ydy'r cwpan, y soser, a'r plât yma?
 GWEN: Dewch yn nes mam, mae eisiau llestri arnon ni.
 MAIR: Byddwch yn ofalus Gwen.
 DYN Y STONDIN: Dwedwch, gyfeillion, ydw i'n gofyn gormod? Dwy bunt am hanner dwsin o soseri, a phlatiau a chwpanau.
 MAIR: Maen nhw i weld yn llestri da.
 DYN Y STONDIN: Ond, wna i ddim gofyn am ddwy bunt i chi, gyfeillion. Ga i bunt a phum deg o geiniogau gan rywun? Punt a phum deg o geiniogau am lestri fel yrhain.
 MAIR: Fe fydd e'n cynnig rhywbeth arall nawr achos ei fod e'n hoff iawn o bobl y lle 'ma.
 DYN Y STONDIN: O'r gorau, achos fy mod i'n hoffi pobl Tre-gaer ga i bunt a dau ddeg pump o geiniogau?
 GWEN: Fe fydd e'n rhoi'r llestri am ddim cyn bo hir.
 MAIR: Dewch i fi gael golwg ar y llestri.
 DYN Y STONDIN: Dyma chi 'nghariad i – llestri gorau'r wlad.
 GWEN: Mam! Dydych chi ddim . . .
 MAIR: Byddwch yn dawel Gwen; faint ddwedoch chi oedd y llestri?
 DYN Y STONDIN: Punt a dau ddeg pump o geiniogau – llestri gorau'r wlad.
 MAIR: Maen nhw i weld yn iawn.
 DYN Y STONDIN: Wrth gws – maen nhw'n llestri da.
 MAIR: O'r gorau – fe ga i nhw.
 DYN Y STONDIN: Mae 'na wraig fan yma sy am brynu. Dyma chi 'nghariad i, jwg laeth a basn siwgr am ddim – i fynd gyda'r llestri.
 GWEN: Ond mam . . .
 MAIR: Maen nhw'n fargen Gwen. Mae eisiau llestri arnoch chi yn y byngalo.

Nodiadau:

- 1 Mae'r ddwy ohonon ni'n mynd i'r farchnad
 Mae'r ddau ohonon ni'n mynd i edrych ar y gêm
*The two of us are going to the market
 The two of us are going to watch the game*
- 2 Note the following uses of the word 'eisiau'
 Mae eisiau llestri arnon ni
 Mae eisiau llestri arnoch chi
 Rydw i eisiau pum punt
 Rydw i eisiau cot newydd
*We need dishes
 You need dishes
 I want five pounds
 I want a new coat*
- 3 Punt a phum deg o geiniogau am lestri fel y rhain
 Fel y rhain
 y rhain comes from – y rhai hyn
 y rheiny from – y rhai hynny
 fel y rheiny
*A pound and fifty pence for dishes like these
 like these
 these ones
 those ones
 like those*

- 4 Achos ei fod e'n dweud eu bod nhw'n fargen
 Achos fy mod i'n dod
 Achos ei fod e'n dod
 Achos ei bod hi'n dod
 Achos ein bod ni'n dod
 Achos eich bod chi'n dod
 Achos eu bod nhw'n dod
*Because he says that they're a bargain
 Because I'm coming
 Because he's coming
 Because she's coming
 Because we're coming
 Because you're coming
 Because they're coming*
- 5 Dim ond deng munud i fynd
 Dim ond tri arall i ddod
*Only ten minutes to go
 Only another three to come*
- 6 Fe wna pumpunt y tro
 Fe wna swllt y tro
 Y tro – a time is the usual meaning; swllt y tro – a shilling a time, but gwneud y tro means to be suitable, to fulfil the need.
*Five pounds will do
 A shilling will do*
- 7 Peidiwch â phryderu
 Mae'ch mam yn aros
 Un peth arall
 Da bo chi
 Ar ddechrau
 ar ddechrau'r gêm
 Mae'r gêm ar ddechrau
 y llestri gorau
 dewch yn nes
 yn erbyn ei gilydd
 am ddim
 faint ddwedoch chi?
*Dont worry
 Your mother is waiting
 One other thing
 So long (literally – well may you be) at the beginning, about to begin at the beginning of the game the game is about to begin the best dishes come nearer against each other free (literally – for nothing) how much did you say?*

8 GEIRFA:

Agoriad(au)	Key(s)	Golwg (f)	Sight
(North Wales)		Gwlad (f)	Country
Allwedd(i) (f)	Key(s)	Gwledydd	Countries
(South Wales)		Gwydr(au)	Glass(es)
Bargen (f)	Bargain	Hwyr	Late
Bargeinion	Bargains	Llestr(i)	Dish(es)
Curo	To beat, knock	Marchnad (f)	Market
Cwpan	Cup	Marchnadoedd	Markets
Cwrw	Beer	Nesa	Next
Cyfaill	Friend	Pryderu	To worry
Cyfeillion	Friends	Rhad	Cheap
Cynnig	Offer		

GWERS 5:

Mae Gwen ag Alun yn y tŷ. Mae pamffledi gan Alun. Mae hi'n amser prysur yn yr ysgol ac mae eisiau gwyliau ar y ddau.

- ALUN: Gwen! Dewch yma.
GWEN: Beth sy'n bod? Rydw i'n brysur iawn cofiwch.
ALUN: Rydych chi bob amser yn brysur. Eisteddwch am funud.
GWEN: Dim ond am funud. Mae rhaid i fi orffen gwneud y llenni a rhaid i fi eu gosod nhw cyn mynd i'r gwely.
ALUN: Ag fe fydd rhaid i chi weithio'n galed yn yr ysgol 'fory eto.
GWEN: Bydd, ond dim ond pythefnos sy cyn hanner tymor, diolch byth.
ALUN: Ie, ag rydyn ni'n mynd i gael gwyliau.
GWEN: Ond, Alun . . .
ALUN: Rydw i wedi penderfynu. Mae eisiau gwyliau ar y ddau ohonon ni. Nawr edrychwch chi ar y pamffledi hyn.
GWEN: Mae nhw'n lliwgar iawn. Ble gawsoch chi nhw?
ALUN: Yn swyddfa'r Bwrdd Croeso.
GWEN: Beth am y gwyliau hyn – merlota yng Nghymru?
ALUN: Mae'n well gen i gerdded.
GWEN: O dewch Alun – rydw i wrth fy modd yn merlota.
Mae Alun a Gwen yn mynd i ferlota a dyma nhw'n cyrraedd fferm Tan y Bwlch. Mae Mr Jones yn aros amdany'n nhw.
MR JONES: Mr a Mrs Davies?
ALUN: Ie.
MR JONES: Croeso i fferm Tan y Bwlch.
GWEN: Diolch yn fawr. Mae'n dawel iawn yma.
MR JONES: Ydy, ar ddiwedd y tymor. Ond mae llawer o bobl yn dod i aros gyda ni yn yr haf.
ALUN: Dod i ferlota maen nhw?
MR JONES: Ie, yn bennaf, ond mae rhai'n dod i gerdded a rhai'n dod i bysgota.
GWEN: Mae'n well gan Alun gerdded. Dydy e ddim yn gallu marchogaeth.
MR JONES: Fyddwn ni fawr o dro'n ei ddysgu. Dewch i'r tŷ.
Mae Mr Jones yn mynd ati i ddysgu Alun
MR JONES: Ydych chi'n barod Alun?
ALUN: Ydy'r ferlen yn mynd i sefyll yn llonydd?
GWEN: O twt, Alun. Merlen fach dawel sy gennych chi. Does dim byd i'w ofni.
MR JONES: Nag oes – dim o gwbl. Mae hon yn ferlen fach dawel. Edrychwch arni. Dydy hi ddim yn symud o gwbl. Dewch Alun, ar ei chefn hi. Dodwch un droed fan yma, yn y warthol. Dyna chi. Nawr te, dringwch ar gefn y ferlen. I fyny â chi. Ydych chi'n barod?
ALUN: Ydw.
MR JONES: O'r gorau. Dyna chi ar ei chefn hi.
GWEN: Da iawn, Alun. Doedd dim byd i'w ofni, oedd e?
MR JONES: Dyna chi nawr, yn barod i fynd. Fe ddo i gyda chi heddiw. Ond fory, fe gewch chi fynd eich hunain. Dere nawr, Bess fach, dere.

Nodiadau:

- 1 Dim ond pythefnos sy cyn hanner tymor
*There's only a fortnight before half term.
(Literally – only a fortnight there is before half term)*
*The boy who's going out
The men who are working there
The books which are on the table
The tree which grows in the garden*
- 2 Pan oedd mam yn dweud
Pan welais i'r dyn
Pan fyddan nhw'n mynd adre
*When mother was saying
When I saw the man
When they'll be going home*
- 3 Ble gawsoch chi nhw?
Ble weloch chi ni?
*Where did you get them?
Where did you see us?*
- 4 Fory fe gewch chi fynd eich hunain hunan
Fy hunan
ei hunan
hunain
ein hunain
eich hunain
eu hunain
Fe ddaethon nhw i'r fferm eu hunain
Fe ddo i yno fy hunan
*Tomorrow you can go on your own self
myself, on my own
himself, herself
selves
ourselves
yourselves
themselves
They came to the farm themselves
I'll come there myself*
- 5 Dere nawr *Come now* Cer, dos *Go*
Dere is the second person singular which corresponds to the 'tu' form in French. It is used between equals or to an inferior. When used between people it shows a degree of intimacy.
- 6 Am funud – *for a moment* (literally – *for a minute*)
Y tro cynta
Rhy brysur i wrando
Cyn mynd i'r gwely
Yn lliwgar iawn
Ar ddiwedd y tymor
Yn benna
Dim byd i'w ofni
Fydda i fawr o dro yn ei ddysgu
*The first time
Too busy to listen
Before going to bed
Very colourful
At the end of the season
For the greater part; mostly
Nothing to be afraid of
I wont be long teaching him*
- 7 GEIRFA:
Bwrdd Croeso *Tourist Board* Gosod *To put, place*
Croeso *Welcome* Gwarthol (f) *Stirrup*
Chwerthin *To laugh* Gwir *Truth*

Gwyliau	<i>Holidays</i>	Merlyn (m)	<i>Pony</i>
Hanner tymor	<i>Half term</i>	Merlota	<i>Pony riding</i>
Hyfryd	<i>Lovely, pleasant</i>	Pamffled(i)	<i>Pamphlet(s)</i>
llen(ni) (f)	<i>Curtain(s)</i>	Pysgota	<i>To fish</i>
Lliwgar	<i>Colourful</i>	Pythefnos	<i>Fortnight</i>
Marchogaeth	<i>To ride</i>	Tro	<i>Turn, time</i>
Merlen (f)	<i>Pony</i>		

GWERS 6:

Mae Mair yn y tŷ. Mae Huw'n dod i mewn. Dydy e ddim mewn hwyl dda.

- MAIR: Huw, rydych chi'n hwyr.
 HUW: Ydw.
 MAIR: Beth sy'n bod?
 HUW: Y tŷ yn car yna . . . dyna beth sy'n bod. Mae rhywbeth yn bod arno byth a beunydd.
 MAIR: Ond roedd e'n mynd yn dda y bore 'ma.
 HUW: Roedd e'n mynd yn dda heno ond fe arhosodd e a gwrthod mynd dim pellach.
 MAIR: A ble roedd hyn?
 HUW: Ydych chi'n gwybod am y goleuadau wrth Westy'r Llew Coch?
 MAIR: Y rhai yn y stryd fawr, wrth y siop ddillad – y boutique newydd yna?
 HUW: Ie, dyna chi. Fe droiodd y goleuadau'n goch. Fe arhosais i. Yna, o'r diwedd, fe droiodd y goleuadau'n wyrdd, dim cyffro ar y car a phawb y tu ôl i fi'n dechrau colli amynedd a chanu corn.
 MAIR: A ble mae'r car bach nawr?
 HUW: Fe ddylai fe fod yn iard y sgrap ond yn y garej mae e.
 MAIR: Mae'n hen bryd i chi gael car newydd Huw. Dyn pwysig fel chi yn cadw hen gar.
 HUW: Ond mae e wedi bod yn mynd yn dda.
 MAIR: Roedd Alun yn dweud bod rhaid i chi gael car newydd.
 HUW: Mae Alun yn meddwl ei fod e'n gwybod y cyfan am geir.
 MAIR: Peidiwch â mynd i dymher Huw. Beth oedd dyn y garej yn dweud?
 HUW: Y clytsh oedd wedi mynd, meddai fe. Fe fydd Alun yn galw heno, fe gawn ni feddwl am gar arall.
 MAIR: Mae'n hen bryd hefyd. Dewch i gael eich cinio neu fe fydd e wedi llosgi.
Mae Alun a Gwen wedi galw
 ALUN: Nawr . . . pa fath o gar ydy e i fod – car newydd neu gar ail-law?
 HUW: Gan bwyll nawr. Dydyn ni ddim wedi penderfynu prynu car arall eto.
 MAIR: Huw! Mae rhaid i chi gael car newydd. Roeddech chi mewn tymer ofnadwy heddiw.
 GWEN: A dydy'r car yma ddim yn mynd yn dda.
 HUW: Ond fedrwn ni ddim fforddio car newydd.
 ALUN: Felly, car ail-law amdani.
 MAIR: Ie, car ail-law oedd y car arall.
 HUW: A char ail-law fydd yr un nesa, a'r un ar ôl hwnnw, a'r un ar ôl hwnnw hefyd. Does dim gobaiht am gar newydd.

- GWEN: Beth am edrych drwy'r hysbysebion sy yn y papur newydd?
 MAIR: Fe allwch chi gael bargaen felly.
 ALUN: Ag fe allwch chi fethu hefyd. Mae rhaid bod yn ofalus wrth ddewis car.
 HUW: Mae rhaid i ni ddewis car da.
 MAIR: Car sy heb fod yn rhy hen.
 HUW: Nag yn rhy newydd, chwaith, neu fydda i ddim yn gallu fforddio talu amdano.

Nodiadau:

- Mae rhywbeth yn bod arno
 Mae rhywbeth yn bod arna i
 Does dim byd yn bod arni hi
 Mae rhywbeth yn bod arnon ni
 Doedd dim byd yn bod arnoch chi
 Roedd rhywbeth yn bod arnyn nhw
*There's something wrong with it
 There's something wrong with me
 There's nothing wrong with her
 There's something wrong with us
 There was nothing wrong with you
 There was something wrong with them*
- Ydych chi'n gwybod am y goleuadau?
 Ydych chi'n gwybod amdany'n nhw?
*Do you know of (about) the lights?
 Do you know about them?*
- Fe ddylai fod yn iard y sgrap
 Fe ddylwn i fod
 Fe ddylai e fod
 Fe ddylai hi fod
 Fe ddylen ni fod
 Fe ddylech chi fod
 Fe ddylen nhw fod
*It should be in the scrapyard
 I should be
 He should be
 She should be
 We should be
 You should be
 They should be*
- Pryd fydd e'n barod?
 Pryd maen nhw'n mynd?
 Pryd oeddech chi yno?
*When will he(it) be ready?
 When are they going?
 When were you there?*
- Roedd pawb y tu ôl i fi'n dechrau colli amynedd
 Y tu ôl i fi
 Y tu ôl iddo fe
 Y tu ôl iddi hi
 Y tu ôl i ni
 Y tu ôl i chi
 Y tu ôl iddyn nhw
*Everybody behind me was beginning to lose patience
 Behind me
 Behind him
 Behind her
 Behind us
 Behind you
 Behind them*
- Fe arhosodd e a gwrthod mynd
 Mewn hwyl dda
 Yn hwyr
 Byth a beunydd
 Dim pellach
 Dim cyffro ar y car
 Y peth cynta
 Gan bwyll nawr
 Fedrwn ni ddim fforddio
*It stopped and refused to go
 In a good humour
 Late
 At all times, always, ever and anon
 No further
 No movement in the car
 The first thing
 Steady on now
 We can't afford*

Y car nesa
Y car ar ôl hwnnw
Does dim gobaith
Talu am
Talu amdano

The next car
The car after that (one)
There's no hope
To pay for
To pay for it (him)

7 GEIRFA:

Ail law *Second hand*
Amynedd *Patience*
Cadw *To keep*
Clytsh *Clutch*
Cyffro *Movement*
Excitement
Cyfan *Whole*
Chwaith *Either*
Dewis *Choice*
Felly *So*
Fforddio *To afford*
Gobaith *Hope*
Golau *Light*
Goleuadau *Lights*

Gwrthod *Refuse*
Hefyd *Also*
Heno *Tonight*
Hysbyseb(ion) *Advertisement(s)*
Llosgi *To burn*
Methu *to fail*
Pawb *Everybody*
Pellach *Further*
Penderfynu *To decide*
Prynu *To buy*
Pwysig *Important*
Sicrwydd *Certainty*
Talu *To pay*
Tymer *Temper*

GWERS 7:

Mae Huw wedi penderfynu prynu car arall. Car ail-law sy'n well na'r car sy ganddo nawr. Mae Alun yn mynd gydag e i'r garej leol ond mae rhaid i Mair fynd gyda nhw.

ALUN: Mae digon o ddewis yn y stryd yma.
HUW: Oes, mae cannoedd o geir yma. Welais i ddim cymaint o geir erioed o'r blaen.
MAIR: Mae pob lle ar hyd y stryd yma'n gwerthu ceir.
HUW: Gadewch i ni fynd i mewn i'r garej yma.
ALUN: Dyma'r dyn gwerthu ceir.
GWERTHWR: Prynhawn da, gyfeillion. Ga i fod o help i chi?
MAIR: Meddwl prynu car bach . . .
ALUN: Na, dim ond edrych i weld beth sy yma – dyna'i gyd.
GWERTHWR: Mae croeso i chi i wneud hynny, gyfeillion. Os bydd 'na ryw beth sy'n dal eich llygad chi, galwch – fe fydda i wrth law.
ALUN: Diolch yn fawr.
HUW: Nawr Mair – peidiwch â siarad gormod. Alun sy'n deall ceir.
MAIR: O twt. Huw! Edrychwch! Dyma gar bach pert!
HUW: Pris pert arno hefyd.
MAIR: Lliw cynnes – a'r cyfan yn sgleinio.
ALUN: Dewch i ni gael golwg ar y car. Ie, roeddwn i'n meddwl wir. Mae hwn wedi bod mewn damwain.

HUW: Sut rydych chi'n gwybod?
ALUN: Edrychwch ar y paent ar y panel uwchben yr olwyn ôl.
HUW: Wel?
ALUN: Cymharwch chi e â'r paent ar ddrws y gyrrwr.
MAIR: O ie, dydyn nhw ddim yn union yr un fath. Mae'r un ar ddrws y gyrrwr ychydig bach yn fwy tywyll.
HUW: Beth am hwn 'te? Bargen am naw cant, dyna mae'r cerdyn yn dweud. Efallai ei fod e'n fargen hefyd. Does dim llawer o filltiroedd ar y cloc.
ALUN: Mae e'n edrych yn weddol . . . ydy . . .
MAIR: Ga i alw ar y dyn sy'n gwerthu?
ALUN: Gan bwyll nawr. Rhaid bod yn ofalus. Edrychwch fan yma.
MAIR: Beth sy 'na?
ALUN: Y marciau bach crwn yma – mae marc ar wyneb y paent weithiau'n dangos bod mwy o rwd dan yr wyneb.
HUW: Dim ond mewn un man mae e.
ALUN: Dewch i fi gael edrych dan y bonet ag o gwmpas yr olwynion.
HUW: Wel, oes ôl rhydu arno Alun?
ALUN: Mae'n anodd dweud. Maen nhw wedi paentio'r cyfan dan yr olwynion.
HUW: Paent i guddio'r pechodau.
GWERTHWR: Ydych chi wedi penderfynu?
ALUN: Na, ddim eto.
MAIR: Fe fyddwn ni'n siwr o alw arnoch pan fyddwn ni wedi penderfynu.
GWERTHWR: O'r gorau.
HUW: Beth am ofyn iddo fe.
ALUN: Gofyn beth?
HUW: Hanes y car a phethau felly.
ALUN: Rydw i'n meddwl byddai'n well i ni gael gair â Rhys.
MAIR: Rhys Tomos?
ALUN: Ie. Mae e'n cadw garej yn Nhreodny; fe all e gadw golwg am gar ail-law i chi.

Nodiadau:

1 Car ail law sy'n well na'r car sy ganddo nawr *A second hand car which is better than the one he's got now*
Welais i ddim cymaint o geir erioed *I never saw so many cars*
Ychydig bach yn fwy tywyll *A little bit darker*
Mwy o rydu *More rusting*
Da *Good*
Yn well *Better*
Yn well na *Better than*
These are the forms of the adjectives we use when we want to compare various things. We place *mor*, *yn fwy* and *y mwya* in front of the normal adjective. For example – tywyll – *dark*; *mor dywyll* – *as dark*; *yn fwy tywyll* – *darker*; *y mwya tywyll* – *the darkest*.
They are used as follows:
Mae'r stafell mor dywyll â'r nos *The room is as dark as night*
Mae'r lliw yn fwy tywyll na'r lliw arall *The colour is darker than the other colour*
Y lle yma ydy'r mwya tywyll *This place is the darkest*

A soft mutation follows *mor* in words beginning with c, p, t, g, b, d, m.

If we are talking about a feminine singular noun then *mwya* turns to *fwya* after *y*.

There are a few irregular comparisons:

da	mor dda cystal	gwell	gorau
drwg	mor ddrwg cynddrwg	gwaeth	gwaetha
mawr	mor fawr cymaint	mwy	mwya
bach	mor fach cyn lleied	llai	lleia

- 2 Car sy'n well na'r car sy ganddo nawr *A car which is better than the car which he's got now*

sy – *who is, which is, who are, which are*

Car sy wedi mynd yn hen *A car which has become old*

sy wedi – *who has, which has, who have, which have*

In the other tenses when we want to translate the relative pronoun *who, which, that*, all we have to do is to give the verb which follows a soft mutation. Look at the following examples:

Dyma'r dyn oedd yn siarad	<i>Here's the man who was talking</i>
Mae'r dyn gafodd ddamwain yn yr ysbyty	<i>The man who had an accident is in hospital</i>
Mae'r fenyw fydd yn canu yn y cyngerdd wedi cyrraedd	<i>The woman, who will be singing in the concert, has arrived</i>

(See also Note 1, Gwers 5.)

- 3 Efallai ei fod e'n fargen hefyd *Perhaps it is a bargain too*
The constructions following *efallai* are the same as those which follow *achos*
Efallai fy mod i'n mynd *Perhaps I am going*
Efallai ei bod hi'n gwybod *Perhaps she knows*
Similarly *trueni* (*it's a pity*) is followed by the same construction.

4 Digon o ddewis	<i>Plenty of choice</i>
Ar hyd y stryd	<i>Along the street</i>
Rhywbeth arbennig	<i>Something special</i>
Dal eich llygad	<i>To catch your eye</i>
Wrth law	<i>At hand</i>
Uwchben	<i>Above</i>
Yn union yr un fath	<i>Exactly the same</i>
Yn ddigon siwr	<i>Sure enough</i>
Eich trowsus gorau	<i>Your best trousers</i>
Cadw golwg am gar	<i>Keep an eye out for a car</i>
Ôl rhydu	<i>Rust marks</i>
Ôl traed	<i>Foot prints</i>

GEIRFA:

arbennig	<i>special</i>	bonet (m)	<i>bonnet of car</i>
cant	<i>hundred</i>	bonet (f)	<i>bonnet (hat)</i>
cannoedd	<i>hundreds</i>	gwybod	<i>to know (a fact)</i>
cerdyn	<i>card</i>	gyrrwr	<i>driver</i>
crwn	<i>round</i>	gyrwr	<i>drivers</i>
cymaint	<i>so much, many</i>	lleol	<i>local</i>
	<i>as much, many</i>	lliw	<i>colour</i>
dangos	<i>to show</i>	metel	<i>metal</i>
dal	<i>to catch</i>	olwyn(ion) (f)	<i>wheel(s)</i>
damwain (f)	<i>accident</i>	paent	<i>paint</i>
dan	<i>under</i>	panel(i)	<i>panel(s)</i>
dewis	<i>choice</i>	pechod(au)	<i>sin(s)</i>
erioed	<i>ever</i>	penlinio	<i>to kneel</i>
gair	<i>word</i>	pris(oedd)	<i>price(s)</i>
geiriau	<i>words</i>	rhwd	<i>rust</i>
gormod	<i>too much</i>	rhydu	<i>to rust</i>
	<i>too many</i>	sgleinio	<i>to shine</i>
gwahanol	<i>different</i>	trowsus(au)	<i>trousers</i>
gweddol	<i>fair</i>	uwchben	<i>above</i>
gwerthu	<i>to sell</i>	weithiau	<i>sometimes</i>

GWERS 8:

Mae hi'n noson stormus ag mae Alun a Gwen yn disgwyl eu ffrindiau, Rhys a Bethan, i ddod i aros gyda nhw.

GWEN: Dewch i mewn a chawech y drws.

ALUN: Dyma noson ofnadwy.

GWEN: Alun bach, rydych chi'n wlyb i'r croen. Tynnwch y gôt yna a rhowch hi i fi. Dyna ni.

ALUN: Mae'n tywallt y glaw.

GWEN: Oes sôn amdany'n nhw?

ALUN: Dim golwg ohonyn nhw. Mae rhaid bod y tywydd mawr yma wedi'u dal nhw nôl. Fe â i allan eto ymhen rhyw chwarter awr.

GWEN: Dim cyn i chi newid eich sgidiau a'ch sanau. Mae'ch traed chi siwr o fod yn wlyb diferu.

ALUN: Dim ond tipyn bach.

GWEN: Dewch nawr. Tynnwch y sgidiau a'r sanau gwlyb 'na.

ALUN: O'r gorau. O'r gorau.

GWEN: Gwisgwch y rhai sych yma.

ALUN: Ond Gwen fach, fe fydd rhaid i fi fynd allan eto cyn bo hir.

GWEN: Mae'n well gen i olchi'r sanau na chael dyn crintachlyd.

ALUN: Pwy sy'n grintachlyd?

GWEN: Dewch nawr, mae rhaid i chi wisgo sgidiau dŵr a het law. Ond wn i ddim

pam mae rhaid i chi fynd allan i'r glaw yn y lle cynta. Mae cyfeiriad y byngalo gan Rhys ag fe fydd e a Bethan yn gallu holi rhywun pan ddeuan nhw i Aberheli.

ALUN: Gwen! Dydyn nhw ddim wedi bod yma erioed o'r blaen. Fedran nhw ddim treulio'r noson yn gyrru o gwmpas Aberheli.

GWEN: A fedrwyd chi ddim treulio'r noson yn aros fel crychudd yng nghanol y glaw . . .

Mae'r teleffon yn canu:

ALUN: Fe ateba i . . .

GWEN: Na, gadewch i fi . . . Aberheli 578 . . . Ie, Gwen yn siarad . . . Hylo, nhad, rydych i glywed yn bell i ffwrdd . . . ydy, mae'r lein yma'n ofnadwy . . . O ie, pryd glywsoch chi? . . . Y funud yma . . . o'r gorau . . . diolch yn fawr. Pawb yn iawn? . . . Nos da.

ALUN: Eich tad?

GWEN: Ie. Mae e wedi cael neges gan Rhys. Fyddan nhw ddim yma heno.

ALUN: Ar ôl iddyn nhw addo. Ond pam?

GWEN: Fedran nhw ddim dod. Mae'r afon wedi gorlifo yn Aber-ffrwd a does dim ffordd i groesi'r bont.

ALUN: Ydy'r ddau'n iawn?

GWEN: Ydyn, dydyn nhw ddim wedi gwlychu fel chi.

ALUN: Ble maen nhw?

GWEN: Cael cinio o flaen tanllwyth o dân yng Ngwesty'r Ebol Du yn Aber-ffrwd. Maen nhw am ddod yn eu blaen fory.

ALUN: Mae'n beth da eu bod nhw'n ddiogel.

GWEN: Ydy, a fydd dim rhaid i chi fynd allan i sefyll yn y glaw. Ewch i gael bath ac fe gawn ninnau ginio bach yma.

ALUN: Faint o'r gloch ydy hi?

GWEN: Mae hi bron yn ddeg o'r gloch.

ALUN: Rydw i am wrando ar ragolygon y tywydd.

DYN Y TYWYDD: Dyma ragolygon y tywydd am fory. Fe fydd hi'n wyntog iawn ym mhob rhan o Gymru bore fory gyda glaw trwm o'r de-orllewin. Fe fydd y glaw yn cilio o'r gorllewin yn ystod y bore a disgwylir ysbectiau heulog yn y prynhawn.

ALUN: Fe allai fod yn waeth – does dim sôn am eira beth bynnag.

Nodiadau:

1 Mae e wedi cael neges gan Rhys *He's had a message from Rhys*
Maen nhw wedi cael eu dal gan y llifogydd *They have been caught by the floods*

In Welsh, the verb *cael* (to get) is used in a special construction to express the passive. Thus:

Rydw i	wedi	cael	fy	nal	<i>I've been caught</i>
Mae e	wedi	cael	ei	ddal	<i>He's been caught</i>
Mae hi	wedi	cael	ei	dal	<i>She's been caught</i>
Rydyn ni	wedi	cael	ein	dal	<i>We've been caught</i>
Rydych chi	wedi	cael	cich	dal	<i>You've been caught</i>
Maen nhw	wedi	cael	eu	dal	<i>They've been caught</i>

The doer of the action is conveyed by *gan* and its personal form, e.g.
Rydw i wedi cael fy nal gan y plisman *I've been caught by the policeman*

2 Geni – to be born.

The passive construction is used with this verb, e.g.

Fe ges i fy ngeni yng Nghymru *I was born in Wales*

3 ar ôl iddyn nhw addo *after they had promised*
ar ôl i fi fynd *after I went/after I had gone*
ar ôl iddo fe ddod *after he came/had come*
ar ôl iddi hi ganu *after she sang/had sung*
ar ôl i ni ganu *after we sang/had sung*
ar ôl i chi ganu *after you sang/had sung*
ar ôl iddyn nhw ganu *after they sang/had sung*

Similarly:

cyn i fi fynd *before I went/had gone, etc.*

4 yn wlyb i'r croen *wet through (to the skin)*
y tu chwith allan *inside out*
hyd pen y ffordd *as far as the top of the road*
gwlyb diferu *dripping wet*
Oes sôn amdany'n nhw? *Is there any sign of them?*

(literally – mention of them?)
before you change
cyn i chi newid *a miserable man*
dyn crintachlyd *in the first place*
yn y lle cynta *far away*
yn bell i ffwrdd *like a heron*
fel crychudd *a roaring fire*
tanllwyth o dân *to come on their way*
dod yn eu blaen *in every part*
ym mhob rhan *It's raining heavily*
mae'n tywallt y glaw *(literally – it is pouring rain)*

bwrw eira	<i>snowing</i>
gwlyb diferu	<i>dripping wet</i>
de-orllewin	<i>south-west</i>
de-ddwyrain	<i>south-east</i>
gwynt cryf	<i>a strong wind</i>
niwl	<i>a mist</i>
niwlog	<i>misty</i>
cymylog	<i>cloudy</i>
barrug (North Wales)	<i>hoar frost</i>
llwydrew (South Wales)	
rhewi	<i>to freeze</i>
iâ	<i>ice</i>
eirlaw	<i>sleet</i>

GEIRFA:

addo	<i>to promise</i>	gwlychu	<i>to get wet</i>
cilio	<i>to retreat</i>	gwyntog	<i>windy</i>
crintachlyd	<i>miserable, mean</i>	gyrru	<i>to drive</i>
croen	<i>skin</i>	haul	<i>sun</i>
crwyn	<i>skins</i>	heulog	<i>summy</i>
croesi	<i>to cross</i>	holi	<i>to ask, enquire</i>
crychudd	<i>heron</i>	llifo	<i>to flow</i>
cyfeiriad	<i>direction, address</i>	neges(euon)	<i>message(s)</i>
chwith	<i>left</i>	rhagolygon y	<i>weather</i>
chwythu	<i>to blow</i>	tywydd	<i>forecast</i>
diferu	<i>to drip</i>	sanau	<i>stockings</i>
diogel	<i>safe</i>	sefyll	<i>stand</i>
disgwyl	<i>to expect</i>	sôn am	<i>mention, talk about</i>
efallai	<i>perhaps</i>	stormus	<i>stormy</i>
eira	<i>snow</i>	sych	<i>dry</i>
esgid(iau) (f)	<i>shoe(s)</i>	treulio	<i>to spend time</i>
eto	<i>again, once more</i>	gwario	<i>to spend money</i>
glaw	<i>rain</i>	trwm	<i>heavy</i>
gorlifo	<i>overflow</i>	unman	<i>anywhere</i>
gorllewin	<i>west</i>	yn ystod	<i>during</i>
gwlyb	<i>wet</i>	ysbaid	<i>interval</i>

GWERS 9:

Mae Huw ag Alun wedi llwyddo i gael tocynnau ar gyfer y gêm rygbi ryngwladol. Mae Mair a Gwen wedi penderfynu mynd gyda nhw ond dydyn nhw ddim eisiau mynd i'r gêm. Mae'n hanner awr wedi wyth yn y bore yng nghartre Huw a Mair Jones.

- HUW: Dewch nawr, Mair.
 MAIR: Dim ond hanner awr wedi wyth ydy hi.
 HUW: Fe fydd Alun yma nawr a fyddwn ni ddim yn barod.
 MAIR: Popeth yn iawn – dim ond eisiau gwisgo cot ag fe fydda i'n barod. Ond fedra i ddim gweld pam mae rhaid i ni fynd o Aberheli ben bore fel hyn.
 HUW: Mae'r traffig yn drwm iawn pan fydd gêm fawr cofiwch.
 MAIR: Huw bach – os awn ni nawr fe fyddwn ni yng Nghaerdydd oriau cyn y gêm.
 HUW: Ag os cawn ni'n dal ar y ffordd mewn un rhes hir o geir fe fydd rhaid i ni eistedd yn y car a gwrando ar y gêm ar y radio.
 MAIR: Dyma nhw ar y gair.
 HUW: Dewch i mewn – mae Mair bron â bod yn barod.
 GWEN: Ga i wneud rhywbeth i helpu mam?
 MAIR: Na, mae popeth yn barod. Huw sy wedi bod yn tarfu ar bawb. Fydda i ddim eiliad.
 HUW: Diwrnod braf ar gyfer yr ornest Alun.
 ALUN: Ydy, ond wn i ddim sut bydd hi dan draed. Braidd yn drwm efallai.

- HUW: Na, mae'r cae newydd 'ma'n cael ei gadw'n dda. Fe fydd yr olwyr 'na'n riedeg fel milgwn.
 ALUN: Ie, os caiff y blaenwyr y bêl.
 HUW: Does dim eisiau i chi boeni Alun. Pe bai Cymru'n cael y bêl o'r lein a'r sgrwm fe fyddai'n ddigon.
 ALUN: Ond fe fydd rhaid cael pêl dda cyn byddan nhw'n gallu gwneud dim â hi.
 HUW: Alun, rydyn ni wedi dadlau am hyn o'r blaen. Mae'r ail-reng yn ddigon da.
 MAIR: Huw!
 HUW: Ag fe ddalian nhw yn y sgrymiau hefyd.
 MAIR: Huw!
 ALUN: Rydw i'n cytuno, ond ydyn nhw'n mynd i fod yn ddigon cyflym yn y chwarae agored?
 GWEN: Alun!
 ALUN: Ag ydyn nhw'n ddigon call i beidio â throesdu yn ein hanner ni?
 GWEN: Mam – rydw i'n credu ei bod yn well i ni fynd. Fe ddown ni i nôl y ddau hyn ar ôl y gêm.
 HUW: Dyma chi'n barod o'r diwedd.
 MAIR: Rydyn ni wedi bod yn aros yma'n gwrando arnoch chi'n sôn am bêl dda ers oriau.
 HUW: Dewch Alun – fe gân nhw fynd i siopa ag yna fe gawn i gyfle i siarad tipyn o synnwyr.
Bellach mae Mair a Gwen wedi mynd i edrych ar siopau mawr Caerdydd. Mae Huw ag Alun yn cyrraedd eu seddau.
 HUW: Dyma ni Alun. Bloc D. Rhes H, dau ddeg pump.
 ALUN: A dau ddeg chwech.
 HUW: Maen nhw'n seddau da dros ben.
 ALUN: Rhwng y llinell bump ar hugain a'r canol.
 HUW: Digon uchel i weld popeth a heb fod yn rhy bell chwaith.
 LLAIS: Prynawn da.
 ALUN: Prynawn da. Mae'n braf ond ydy hi?
 LLAIS: Ydy, ond mae hi'n ddigon oer, hefyd.
 HUW: Beth ydych chi'n meddwl ddaw ohoni heddiw?
 LLAIS: Y gêm?
 HUW: Ie.
 LLAIS: Cymru i ennill wrth gwrs.
 ALUN: Os caiff yr olwyr ddigon o'r bêl, mae'n siwr, ond ydy'r blaenwyr yma'n ddigon cryf?
 HUW: Rydw i'n dal i ddweud . . .

Nodiadau:

- | | | | |
|-----------------------|------------------------------|--------------|---------------------|
| I Pe bai Cymru'n cael | <i>If Wales were to have</i> | Pe baen ni | <i>If we were</i> |
| Pe bawn i | <i>If I were</i> | Pe baech chi | <i>If you were</i> |
| Pe bai e | <i>If he were</i> | Pe baen nhw | <i>If they were</i> |
| Pe bai hi | <i>If she were</i> | | |

This is the form we use for statements where we say that *if so and so were to happen then something else would be certain to follow*.

You will also see the forms:

Petawn i *If I were*
 Petai e *If he were*
 Petai hi *If she were*

Petaen nhw'n cael yr arian fe fydden nhw'n hapus

Petaen ni *If we were*
 Petaech chi *If you were*
 Petaen nhw *If they were*

If they were to get the money they would be happy

2 Pam pryna nhw ddim un?
 Gobeithio does dim o'i le

*Why dont they buy one?
 I hope there's nothing wrong*

3 Heb fod yn rhy bell
 Cyn eu bod nhw'n gallu gwneud dim â hi

*Without being too far
 Before they can do anything with it*

4 Os awn ni nawr fe fyddwn ni yng Nghaerdydd oriau cyn y gêm Os caiff y blaenwyr y bêl Os caiff yr olwyr ddigon o'r bêl

*If we go now we will be in Cardiff hours before the game
 If the forwards get the ball
 If the backs get enough of the ball*

5 Tocynnau ar gyfer y gêm Fedra i ddim gweld pam Ben bore Huw sy'n tarfu ar bawb Dan draed Tipyn o synnwyr Trueni amdano fe Nesa at ei gilydd Rydw i'n dal i ddweud

*Tickets for the game
 I can't see why
 Very early in the morning
 It's Huw who's upsetting everyone
 Underfoot
 A bit of sense
 A pity about him
 Next to each other
 I still say
 (literally – I am holding to the saying)*

6 GEIRFA:

adnabod *to know (a person)*
 agored *open*
 ail-reng *second row*
 anlwc *misfortune*
 anlweus *unlucky*
 ar gyfer *for the purpose of*
 bellach *as from now on*
 blaenwr *forward*
 blaenwyr *forwards*
 braf *fine*
 braidd *only just*
 cadw *to keep*
 cae(au) *field(s)*

cael *to receive, have*
 cefnwr *full-back*
 cefnwyr *full-backs*
 credu *to believe*
 cyfarfod *to meet*
 cyflym *quick, fast*
 cyfnither (f) *cousin*
 cefnder (m) *cousin*
 dadlau *argue*
 ennill *to win*
 gallu *to be able*
 gêm (f) *game*
 glân *clean*
 gornest (f) *contest*

llwyddo *succeed*
 milgi *greyhound*
 milgwn *greyhounds*
 newydd *new*
 olwyr *backs*
 pawb *everybody*
 pell *far, distant*
 poeni *to worry*
 popeth *everything*
 priodas (f) *marriage*

rheng (f) *row*
 rhes (f) *row*
 rhyngwladol *international*
 sedd(au) (f) *seat(s)*
 synnwyr *sense*
 tarfu ar *disturb*
 tocyn(nau) *ticket(s)*
 troseddu *transgress*
 trueni *pity*
 trwm *heavy*

GWERS 10:

Mae'r ddau deulu wedi mynd i'r theatr. Mae Gwen yn actio ag wrth gwrs mae Alun, Huw Jones a Mair yno yn ei gwyllo.

MAIR: Ydych chi'n siwr mai'r rhain ydy'r seddau iawn?
 HUW: Ydw, ydw. Edrychwch. Rhes B, un deg saith ag un deg wyth. Dewch ymlaen.
 MAIR: Maen nhw'n seddau da ond ydyn nhw?
 HUW: Ydyn wir.
 MAIR: Ga i weld y rhaglen? Dyma ni – Morwenna – Gwen Davies. Mae'i henw hi yma, edrychwch Huw.
 HUW: Wrth gwrs ei fod e. Gwell i Alun beidio â bod yn hir. Maen nhw ar ddechrau.
 MAIR: Mae hi siwr o fod yn nerfus iawn. Ydych chi'n meddwl dylwn i fod wedi mynd i'w gweld hi?
 HUW: Nag ydw. Fe fyddai hi'n llawer mwy nerfus wrth weld ei mam yn hofran o gwmpas. Fe gewch chi fynd i'w gweld hi ar ôl y perfformiad.
 MAIR: Ie, dyna fyddai orau, mae'n siwr. Dyma Alun. Popeth yn iawn, Alun?
 ALUN: Maen nhw bron yn barod nawr.
 MAIR: Sut roedd Gwen? Ddwedoch chi wrthi ein bod ni'n dau'n dymuno pob llw iddi?
 ALUN: Do, do.
 HUW: Hist nawr – dyma nhw wrthi.
Ar y llwyfan:
 FRED: Wnaiff e mo'r tro . . . na . . . wnaiff e mo'r tro o gwbl . . . mae rhaid cael llinyn arall. Morwenna! Morwenna!
 MORWENNA: Ie Fred? Be sy'n bod nawr?
 FRED: Edrych ar y llinyn 'ma. Mae 'na rywbeth o'i le arno. Dydy e ddim yn edrych yn iawn rywsut.
 MORWENNA: O Fred, dere nawr – beth sy o'i le arno? Mae'r defnydd yn ddigon da.
 FRED: Mae'r defnydd yn iawn – mae'n gryf – yn addas i'r gwaith, ond . . .
 MORWENNA: Ond beth? Paid â dweud dim yn erbyn y llw. Os wyt am newid y llinyn 'na fe fydd rhaid gohirio'r cwbl eto.
 FRED: Does dim gohirio i fod – fe rois i 'ngair. Mae agoriad i fod ag fe fydd yna

agoriad. Mae popeth, popeth ond y teimlad yn iawn . . . nawr, teimla di hwnna . . .

Ar ddiwedd y perfformiad:

- MAIR: Ond oedd hi'n dda?
 HUW: Eich merch chi neu'r ddrama?
 MAIR: Gwen, wrth gwrs – roedd hi'n actio'n dda dros ben.
 ALUN: Chawson nhw ddim llawer o gymeradwyaeth, do fe?
 HUW: Naddo wir – ond bai'r ddrama oedd hynny. Nid bai yr actio.
 ALUN: Ag mewn cystadleuaeth yr actio sy'n bwysig.
 HUW: Yr actio sy fwy pwysig ond mae'r ddrama'n cyfrif hefyd.
 MAIR: Wel, roeddwn i'n meddwl eu bod nhw i gyd yn dda. Rydw i'n mynd i weld Gwen cyn bod y ddrama nesa'n dechrau.
 HUW: Ie, ewch chi Mair – fe welwn ni chi nôl yma.
 MAIR: Byddwch chi nôl mewn pryd nawr.
 ALUN: Wrth gwrs, wrth gwrs.
 HUW: Peint bach Alun?
 ALUN: Siwr iawn. Mae gwylio drama'n codi syched arna i.
 HUW: Ie, trueni eu bod nhw wedi dewis drama ryfedd fel 'na yn lle un o'r hen rai.
 ALUN: Dewch nawr – os brysiwn ni efallai bydd amser am ddaau beint.

The second person singular:

In the extract from the play the second person singular is used. In lesson five we saw the command form being used, here many more examples are used. Fred says 'Edrych ar y llinyn 'ma' instead of 'Edrychwch'. He also uses 'teimla' instead of 'teimlwch' for feel. Morwenna uses 'Paid â' instead of 'Peidiwch â', 'Os wyt ti' for 'Os ydych chi', 'rhaid i ti' instead of 'rhaid i chi'. Here is a list of some of the corresponding forms.

PLURAL:		SINGULAR:
Rydych chi	<i>You are</i>	Rwyt ti
Ydych chi?	<i>Are you?</i>	Wyt ti?
Dydych chi ddim	<i>You're not</i>	Dwyt ti ddim
Roeddech chi	<i>You were</i>	Roeddet ti
Oeddech chi?	<i>Were you?</i>	Oeddet ti?
Doeddech chi ddim	<i>You weren't</i>	Doeddet ti ddim
Byddwch chi	<i>You will be</i>	Byddi di
Fe gewch chi	<i>You'll get</i>	Fe gei di
Fe ewch chi	<i>You'll go</i>	Fe ei di
Fe gawsoch chi	<i>You had</i>	Fe gest ti
Peidiwch	<i>Don't</i>	Paid

Nodiadau:

- 1 Ydych chi'n siwr mai dyma'r seddau iawn? *Are you sure that these are the right seats?*
 Rydw i'n meddwl mai Gwen sy'n actio *I think that it's Gwen who's acting*
 A clause which begins with *That I am, was, etc.*, is introduced in Welsh by *fy mod i, ei fod e*, and so on, but in cases like the above two sentences when there is emphasis in the part that follows *that*, we use *mai* to translate *that*.

2 Maen nhw ar ddechrau *They're about to start (or on the point of starting)*

Here are some other prepositions which are used in the same way.

- am: Rydw i am fynd *I want to go*
 ar: Mae'r bus ar gyrraedd *The bus is about to arrive*
 heb: Mae e heb weld y dyn *He hasn't seen the man*
 Fe aeth e heb weld y dyn *He went without seeing the man*
 bron: Mae hi bron yn ddeg o'r gloch *It's almost ten o'clock*
 newydd: Mae e newydd alw *He has just called*
 Note also: *cyn* – before; *ar ôl* – after; *wedi* – after
 Rhaid iddo fe orffen cyn mynd allan *He's got to finish before going out*
 Ar ôl gweld ei fam fe aeth e adre *After seeing his mother he went home*
 Wedi dysgu'r geiriau fe aeth e i'r gwely *After learning the words he went to bed*

3 Chawson nhw ddim llawer o gymeradwyaeth, do fe? *They didn't get a lot of applause, did they?*

To change a statement in the past tense into a question, we place *do fe* at the end.
 Welodd e ddim mono ni do fe? *He didn't see us did he?*

Similarly

- Oes e; ydy e/hi; oedd e/hi; fydd e/hi;
 and ond oes e; ond ydy e, etc.
 Does dim llawer yma oes e?
 Dydy hi ddim yn canu'n dda, ydy hi?
 Mae hi'n ferch bert, ond ydy hi?

There aren't many here are there?
She isn't singing well, is she?
She's a pretty girl, isn't she?

4 Rhag ofn – for fear, in case.

- Gwell i Alun beidio â bod yn hir: *Alun had better not be long*
 Hofran o gwmpas *Hovering around*
 Rhywbeth ffôl *Something foolish*
 Mae popeth yn iawn bellach *Everything is alright now*
 Pob lwc iddi *The best of luck to her*
 Rhywsut *Somehow*
 Rhaid i ti ohirio'r cwbl eto *You'll have to postpone everything again*
 Yn dda dros ben *Exceedingly well*
 Bai'r ddrama, nid bai'r actio *The fault of the play not the fault of the acting*
 Y ddrama nesa *The next play*
 Yn lle un o'r hen rai *Instead of one of the old ones*

5 GEIRFA:

addas	<i>suitable</i>	dymuno	<i>to wish, desire</i>
agoriad	<i>opening</i>	ffôl	<i>foolish</i>
anghofio	<i>to forget</i>	gohirio	<i>to postpone</i>
bai	<i>fault</i>	gwylio	<i>to watch</i>
bob amser	<i>always</i>	hefyd	<i>also, as well</i>
cryf	<i>strong</i>	hofran	<i>to flutter</i>
cyfrif	<i>to count</i>	llwyn	<i>cord</i>
cymeradwyaeth (f)	<i>applause</i>	mewn pryd	<i>in time</i>
cystadleuaeth (f)	<i>competition</i>	nerfus	<i>nervous</i>

newid	<i>to change</i>	rhyfedd	<i>strange</i>
perfformiad	<i>performance</i>	rhywsut	<i>somehow</i>
rhaglen(ni) (f)	<i>programme(s)</i>	syched	<i>a thirst</i>
rhai	<i>some</i>	teimlad(au)	<i>feeling(s)</i>

GWERS 11:

Mae'r Nadolig yn nesáu. Mae Gwen yn meddwl ei bod hi'n hen bryd dechrau sgrifennu cardiau Nadolig a meddwl am brynu anrhegion.

- GWEN: Alun! Fydd pibell yn iawn i'ch tad?
 ALUN: Pibell?
 GWEN: Ie, fel anrheg Nadolig. Fydd pibell yn anrheg dderbyniol?
 ALUN: Fe fyddai nhad wrth ei fodd.
 GWEN: Dyna ni, 'te – pibell i dad Alun.
 ALUN: Ond fydd mam ddim mor hapus.
 GWEN: Doeddwn i ddim yn meddwl prynu pibell i'ch mam hefyd.
 ALUN: Fe wn i hynny, ond fydd mam ddim yn hapus iawn wrth weld dad yn cael pibell. Mae'n gwneud ei gorau glas i'w rwystro rhag smygu.
 GWEN: Dydy pibell ddim yn syniad da, felly. Beth fyddech chi'n ei awgrymu?
 ALUN: Sanau?
 GWEN: Dim sanau na menig. Mae pawb yn rhoi sanau a menig. Gwell awgrym os gwelwch chi'n dda.
 ALUN: Tocyn?
 GWEN: Tocyn llyfrau?
 ALUN: Fe fyddai tocyn llyfrau'n ddigon derbyniol. Mae e'n hoffi darllen, ond tocyn stand i'r gêm rygbi rhwng Cymru a Lloegr oedd gen i mewn golwg.
 GWEN: Wel, dyna'r ateb. Wnewch chi brynu un iddo fe erbyn y Nadolig?
 ALUN: Gwen! Fedrwyd chi ddim prynu tocyn stand i gêm ryngwladol mor hawdd â hynny.
 GWEN: Dewch 'te. Beth am awgrym synhwyrol?
 ALUN: Gadewch y cyfan i fi. Fe wna i'n siwr bydd nhad yn cael anrheg Nadolig sy wrth fodd ei galon, ag fe bryna i rywbeth i John 'y mrawd hefyd.
 GWEN: Da iawn. Beth am sgrifennu rhai o'r cardiau Nadolig?
 ALUN: Ond mae digon o amser cyn y Nadolig.
 GWEN: Nag oes. Mae rhaid anfon cardiau i'r rhai sy'n byw dros y môr nawr. Beth am eich perthnasau yn America? Mae'n hen bryd i chi sgrifennu'r cardiau hynny. Dewiswch un o'r rhain.
 ALUN: Maen nhw i gyd yn debyg – llun robin neu hen dŷ neu goeden Nadolig.
 GWEN: Dewch Alun – edrychwch ar y cardiau. Beth am hon? Llund o'r preseb, y baban a'r anifeiliaid, a 'Cyfarchion y Nadolig' ar y clawr?
 ALUN: Beth sy y tu mewn?
 GWEN: Dim ond 'Dymuniadau gorau am y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda'.
 ALUN: Fe wnaiff honna'r tro'n iawn i ewyrth Wil a'r teulu yn Boston. Dewch i fi gael gweld y gweddill.

- GWEN: Fe â i ymlaen i orffen y rhestr anrhegion.
 ALUN: Ydy f'enw i ar y rhestr?
 GWEN: Ydy.
 ALUN: Beth ydych chi'n roi i fi?
 GWEN: Fyddai hi ddim yn well gennyh chi gael gwybod ar fore dydd Nadolig?
 ALUN: Efallai byddai hi . . . ond . . .
 GWEN: Wel, os oes rhaid i chi gael gwybod . . . pâr o sanau a phâr o fenig.

Nodiadau:

- 1 Fe fyddai nhad wrth ei fodd *Father would be in his element*
 Rhywbeth wrth fodd ei galon *Something which he'd really like*
 (literally: *to his heart's content*)
- wrth fy modd *in my element*
 wrth ei fodd *in his element*
 wrth ei bodd *in her element*
 wrth ein bodd *in our element*
 wrth eich bodd *in your element*
 wrth eu bodd *in their element*
- 2 Fe wna honna'r tro yn iawn *That will do very well*
 hwn – this (one) – masculine
 hwnna – that (one) – masculine
 Faint ydy hwn? *Faint ydy hwnna?*
How much is this? How much is that one?
 hon – this (one) – feminine
 honna – that (one) – feminine
 Rydw i'n hoffi hon *I like this*
 Beth am honna? *What about that one?*
- 3 Fydd y tocynnau ddim wedi cael eu dosbarthu *The tickets will not have been distributed*
 This is the passive form. See note 1, lesson 8.
- 4 Yn hen bryd *high time*
 Wrth weld dad yn cael pibell *Seeing father getting a pipe*
 Mae'n gwneud ei gorau glas *She's doing her very best; she's doing her utmost*
 I'w rwystro rhag smygu *to prevent him, to stop him, smoking*
 Gwell awgrym *a better suggestion*
 Mor hawdd â hynny *As easy as that*
 dros y môr *overseas*
 Un o'r rhain *one of these*
 Cyfarchion y Nadolig *Christmas greetings*
 Dewch i fi gael gweld *Let me see*
 I'w roi i fi *to give me*

5 GEIRFA:

Agos	<i>near</i>	menig	<i>gloves</i>
anrheg(ion) (f)	<i>gift(s)</i>	mwynhau	<i>to enjoy</i>
awgrym	<i>suggestion</i>	nesáu	<i>approach; draw near</i>
awgrymu	<i>to suggest</i>	perthynas	<i>relation</i>
cyfarchion	<i>greetings</i>	perthnasau	<i>relations</i>
derbyniol	<i>acceptable</i>	pibell	<i>pipe</i>
dosbarthu	<i>to distribute</i>	preseb	<i>manger</i>
dymuniad(au)	<i>desire(s); wishes</i>	rhestr(i) (f)	<i>list(s)</i>
gwastraffu	<i>to waste</i>	rhwystro	<i>to hinder; hamper</i>
gwedhill	<i>remainder</i>	segura	<i>to idle</i>
hawdd	<i>easy</i>	smygu	<i>to smoke</i>
maneg (f)	<i>glove</i>		

GWERS 12:

Ar drothwyr Nadolig, mae'r ddwy wraig – Gwen a Mair – yn brysur iawn. A beth am y gwŷr – Huw Jones ag Alun Davies? Dewch i ni gael mynd i Ardwyn yn gynta. Gwrandewch.

ALUN: Gwen! Gwen!
 GWEN: Ie? Beth sy'n bod nawr?
 ALUN: Ydych chi wedi gorffen?
 GWEN: Nag ydw, fydda i ddim wedi gorffen tan hanner nos.
 ALUN: Oes eiliad neu ddwy gennych chi?
 GWEN: I beth?
 ALUN: I wrando ar y garol yma.
 GWEN: Ond Alun, rydw i wedi gwrandao arnoch chi o'r blaen.
 ALUN: Fe hoffwn i fod yn siwr ohoni. Fe fydd llawer o bobl yn y gwasanaeth carolau a dydw i ddim am ganu'n wael.
 GWEN: Fe fyddwch chi'n iawn, rydw i'n siwr. Ond dewch ymlaen, rydw i'n barod i wrando.
 ALUN: (YN CANU)
 Ar gyfer heddiw'r bore'n Faban bach, yn Faban bach
 Y ganwyd gwreiddyn Jese'n Faban bach;
 Y cadarn ddaeth o Bosra,
 Y deddfwr gynt o Seina,
 Yr Iawn gaed ar Galfaria'n
 Faban bach, yn Faban bach,
 Ar fron ei fam Maria'n Faban bach.
 GWEN: Da iawn. Fe wnaiff hynny'r tro'n iawn.
 ALUN: Mae dau bennill arall. Hoffech chi eu clywed nhw?
 GWEN: Gwell i chi beidio â defnyddio gormod ar eich llais.
 ALUN: O'r gorau.
 GWEN: Fe allwch chi ddechrau paratoi'r llysiâu erbyn fory. Dewch ymlaen.
 Yr un ydy'r stori yn nhŷ Huw a Mair Jones yn Aberheli ond dydy Huw ddim yn gallu canu'n

dda iawn. Does dim rhaid i Mair Jones weithio mor galed chwaith – fe fyddan nhw'n mynd i gael cinio yn Ardwyn ar ddydd Nadolig.

MAIR: Dewch nawr Huw, gwell i chi fynd dros y darlenniad 'na unwaith eto.
 HUW: Rydw i wedi'i ddysgu e ar 'y nghof bron.
 MAIR: Huw bach, beth os anghofiwch chi'ch sbectol? Beth os na fyddwch chi'n gallu dod o hyd i'r dudalen iawn yn y Beibl?
 HUW: Fydda i ddim yn anghofio'r sbectol ag rydw i'n ddigon cyfarwydd â'r Beibl.
 MAIR: Wnaiff e ddim niwed i chi ei ddarllen e unwaith eto i gael gwneud yn siwr o'r seibol.
 HUW: O'r gorau. Nawr, dewch i ni gael gweld . . . Ble mae'r tudalen 'na?
 MAIR: Dyna fe – roeddwn i'n dweud ei bod yn well i chi wneud yn siwr.
 HUW: Rhowch gyfle i fi ddod o hyd iddo. A, dyma ni. 'A Joseff hefyd a aeth i fyny o Galilea, o ddinas Nasareth i Jiwdea, i ddinas Dafydd, yr hon a elwir Bethlehem, am ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd.'
 MAIR: Huw – fe ddylech chi roi'r bennod a'r adnod i ddechrau.
 HUW: O'r gorau. Yr ail bennod o Efengyl Luc, adnod pedair i adnod un deg pedair. 'A Joseff hefyd a aeth . . .'
 MAIR: Mae hwnna yn well.
 HUW: Wel, gadewch i fi fynd drwyddo unwaith heb i chi dorri a 'y nhraws i.
 MAIR: O'r gorau, o'r gorau Huw bach, peidiwch â mynd i dymer.
 HUW: Yr ail bennod o Efengyl Luc, adnod pedair i adnod un deg pedair. 'A Joseff hefyd a aeth i fyny o Galilea, o ddinas Nasareth, i Jiwdea, i ddinas Dafydd, yr hon a elwir Bethlehem (am ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd), I'w drethu gyda Mair, yr hon a ddyweddiadid yn wraig iddo, yr hon oedd yn feichiog. A bu, tra oeddynt hwy yno, cyflawnwyd y dyddiau i esgor ohoni. A hi a esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig, ac a'i rhwymodd ef mewn cadachau, ac a'i dododd ef yn y preseb; am nad oedd iddynt le yn y llety. Ac yr oedd yn y wlad honno fugeiliaid yn aros yn y maes, ac yn gwylid eu praidd liw nos. Ac wele, angel yr Arglwydd a safodd gerllaw iddynt, a gogoniant yr Arglwydd a ddisgleiriodd o'u hamgylch; ac ofni yn ddirfawr a wnaethant. A'r angel a ddywedodd wrthynt, Nac ofnwch; canys wele, yr wyf fi yn mynegi i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl; Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd. A hyn fydd arwydd i chwi; Chwi a gewch y dyn bach wedi ei rwymo mewn cadachau, a'i ddodi yn y preseb. Ac yn ddisymwth yr oedd gyda'r angel liaws o lu nefol, yn moliannu Duw, ag yn dywedyd, Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da.'

Translation of Carol:

For this very morning as a tiny babe,
 Was born of Jesse's stock a tiny babe,
 The mighty came from Bosra,
 The lawgiver from Sinia of yore,
 The Right was found on Calvary
 As a tiny babe, a tiny babe,
 On his mother Maria's breast a tiny babe.

The reading is in the traditional Literary Welsh – Cymraeg Llyfr. This is the form used by most Welsh authors and in most Welsh newspapers and magazines although more spoken forms are to be found in the Welsh written during the last few years. The differences between spoken and literary Welsh are really very slight. The vocabulary is the same except for a few words which are now used only in the written language. The grammar is the same and the sentence patterns are largely the same. Spoken and Book Welsh look more different on paper than they really are, but the span between them is easily bridged. Here are some of the differences.

1 Pronouns:

SPOKEN WELSH:	BOOK WELSH:
E, fe, fo (N. Wales)	Ef
chi	chwi
nhw	hwy

2 VERB: to be

Rydw i	Yr wyf, yr ydwyf	rydych chi	yr ydych chwi
mae e, hi	y mae ef, hi	maen nhw	y maent hwy
rydyn ni	yr ydym ni		

3 In the first person singular the literary form keeps the final *f* and this is true also in the other verbal forms.

Fe fydda i	Byddaf i	fe alla i	Gallaf i
------------	----------	-----------	----------

Similarly with the prepositions:

arna i	arnaf i
ata i	ataf i
ohono i	ohonof i

Also the adjectives:

cynta	<i>first</i>	cyntaf
oera	<i>coldest</i>	oeraf
nesa	<i>next</i>	nesaf

4 In the first person plural past perfect in literary Welsh there is an *m* at the end not an *n*

Fe aethon ni	Aethom ni	fe ddysgon ni	Dysgom ni
--------------	-----------	---------------	-----------

Similarly with the prepositions:

arnon ni	arnom ni
----------	----------

It is also seen in the present tense and the imperfect tense of *bod*

rydyn ni	yr ydym ni	roedden ni	yr oeddem ni
----------	------------	------------	--------------

5 The third person plural in all the tenses has a 't' at the end in literary Welsh

Fe welan nhw	Gwelant hwy	roedden nhw	yr oeddynt hwy
ydyn nhw?	A ydynt hwy?	fe aethon nhw	aethant hwy

This also occurs in the prepositions:

Arnyn nhw	arnynt hwy	ganddyn nhw	ganddynt hwy
-----------	------------	-------------	--------------

6 In speaking we used the negative 'nid' in the emphatic.

e.g. Nid Alun ydy e

Nid yn Abertawe oedd e,

and so on, but in literary Welsh *nid* or *ni* is the negative particle which always comes before the verb.

nid oes, nid ydwyf.

does dim	nid oes
doedd dim	nid oedd

When the mutated verb begins with a consonant or a consonantal vowel *nid* becomes *ni*.

Wales i ddim	Ni welais i
Chawson ni ddim	Ni chwawsom ni
Ddaethon nhw ddim	Ni ddaethant hwy

7 For the interrogative form it is usual to show *A* before the verb.

Welsoch chi?	A welsoch chi?
Gaiff e?	A gaiff e?

Similarly the relative pronouns are used in the translation of who/which, e.g.

y bechgyn a oedd yn chwarae	yn y fflair y prynodd Dafydd fuwch
instead of	instead of
y bechgyn oedd yn chwarae	yn y fflair prynodd Dafydd fuwch

Nodiadau:

1 Ar drothwy'r Nadolig *Very near Christmas*
Trothwy means threshold, one more step and it will be Christmas day itself.

2 *Ar gyfer heddiw'r bore* is a traditional Welsh carol. The words and the music can be found in most Welsh hymnals.

3 torri ar draws	<i>to interrupt</i>
torri ar fy nhraws	<i>to interrupt me</i>
torri ar ei draws	<i>to interrupt him</i>
torri ar ei thraws	<i>to interrupt her</i>
torri ar draws y dyn	<i>to interrupt the man</i>
torri ar ein traws	<i>to interrupt us</i>
torri ar eich traws	<i>to interrupt you</i>
torri ar eu traws	<i>to interrupt them</i>

4 tan hanner nos	<i>till midnight</i>
canol dydd	<i>mid day</i>
dydw i ddim am ganu'n wael	<i>I don't want to sing badly</i>
Dewch yn eich blaen	<i>come along</i>
Fe wnaiff y tro'n iawn	<i>It will do alright</i>
Defnyddio gormod ar eich llais	<i>Use your voice too much</i>
erbyn fory	<i>by tomorrow</i>
dysgu ar y cof	<i>to memorise</i>
cael gafael ar	<i>to get hold of</i>

gwacáu *to empty*
 gwaetha *worst*
 gwahanol *different*
 gwario *spend (money)*
 gwarthol (f) *stirrup*
 gwasanaeth *service*
 gweddill *remainder*
 gweddol *fair*
 gwerthu *to sell*
 gwir *true*
 gwlad (f) *country*
 gwledydd *countries*
 gwlyb *wet*
 gwlychu *to get wet*
 gwres *heat, temperature*
 gwres canolog *central heating*
 gwrthod *to refuse*
 gwylbod *to know (something)*
 gwydr(au) *glass(es)*
 gwyliau *holidays*
 gwyllo *to watch*
 gwyntog *windy*
 gyrru *to drive*
 gyrrwr *driver*
 gyrwyr *drivers*

h
 hanner tymor *half term*
 haul *sun*
 hawdd *easy*
 hefyd *also*
 heno *tonight*
 heulog *sunny*
 hofran *flutter*
 holi *ask, enquire*
 hwyr *late*
 hyfryd *lovely, pleasant*
 hysbyseb(ion) *advertisement(s)*

l
 lolfa (f) *lounge*
ll
 llais *voice*
 lleisiau *voices*
 lle(oedd) *place(s)*
 llen(ni) (f) *curtain(s)*
 lleol *local*

llestr(i) *dish(es)*
 llifo *to flow*
 llinyn *cord*
 liw *colour*
 lliwgar *colourful*
 llosgi *to burn*
 llwy(au) (f) *spoon(s)*
 llwy de (f) *teaspoon*
 llwyddo *succeed*

m
 maneg (f) *glove*
 menig *gloves*
 marchogaeth *to ride*
 marchnad(oedd) (f) *market(s)*
 meddwl *to think*
 merlen (f) *pony*
 merlota *pony trekking*
 metel *metal*
 methu *to fail*
 mewn pryd *in time*
 milgi *greyhound*
 milgwn *greyhounds*
 mwynhau *enjoy*

n
 neges(euon) *message(s)*
 nerfus *nervous*
 nesa *next*
 nesáu *approach, draw near*
 neu *or*
 newid *to change*
 newydd *new*

o
 oer *cold*
 ofnadwy *terrible*
 olwyn(ion) (f) *wheel(s)*

p
 paent *paint*
 panel(i) *panel(s)*
 paratoi *prepare*
 pawb *everybody*
 pechod(au) *sin(s)*
 pell *far*
 pellach *further*
 penderfynu *decide*

penlinio *kneel*
 pennill *verse*
 penillion *verses*
 pennod (f) *chapter*
 penodau *chapters*
 pentwr *heap*
 perfformiad *performance*
 perthyn *belong, related*
 perthynas *relative*
 perthnasau *relations*
 pibau *pipes*
 pibell (f) *pipe*
 pilsen (f) *pill*
 poen(au) *pain(s)*
 poeni *to worry*
 popeth *everything*
 preseb *manger*
 priodas(au) (f) *marriage(s)*
 pris(oedd) *price(s)*
 pryderu *worry*
 prynu *buy*
 prysur *busy*
 pwysig *important*
 pysgota *fish*
 pythefnos *fortnight*

rh
 rhad *cheap*
 rhaglen(ni) (f) *programme(s)*
 rhagolygon y tywydd *weather forecast*
 rhai *some*
 rheng (f) *row*
 rhes (f) *row*
 rhestr(i) (f) *list(s)*
 rhosyn(nau) *rose(s)*
 rhwd *rust*
 rhwystro *prevent, hinder*
 rhydu *to rust*
 rhyfedd *strange*
 rhyngwladol *international*
 rhywsut *somehow*

s
 sâl *ill*
 sanau *stockings*
 sedd(au) (f) *seat(s)*
 sefyll *to stand*
 segura *to idle*
 seibio *to pause*

sgleinio *shine*
 sgrifenyddes (f) *secretary*
 sicrwydd *certainty*
 smygu *smoke*
 smotyn *spot*
 smotiau *spots*
 sôn am *mention, talk about*
 stormus *stormy*
 swyddfa (f) *office*
 swyddfeydd *offices*
 syched *thirst*
 sylwadau *remarks*
 synnwyr *sense*

t
 tad-ying-nghyfraith *father-in-law*
 tafod(au) *tongue(s)*
 talu *to pay*
 tarfu ar *to disturb*
 tawelwch *quietness*
 teimlad(au) *feeling(s)*
 tipyn bach *a little bit*
 tir *land*
 tocyn(nau) *ticket(s)*
 treulio *spend (time)*
 tro *time, turn*
 troseddu *transgress*
 trueni *pity*
 trowsus(au) *trousers*
 trwm *heavy*
 twym *hot*
 twyn *hillock*
 tymer *temper*
 tymheredd *temperature*
 tywydd *weather*

u
 uchel *high*
 unman *anywhere*
 uwchben *above*

w
 weithiau *sometimes*
 wyneb(au) *face(s)*

y
 y frech goch *measles*
 yn ystod *during*
 ysбайд *interval*
 yswiriant *insurance*

Dewch i Siarad 2

This booklet accompanies a series of 12 broadcasts (first broadcast September to December 1974) for listeners who have followed the first year of radio and television broadcasts of Dewch i Siarad Book 1.

It would also prove of assistance to people who have studied Welsh in evening classes for one or two years and should enable listeners to improve their command of spoken Welsh.

It is indispensable to the understanding of the broadcasts and contains a text of the scenes, the vocabulary and notes on grammar.